

Ochr-yn-Ochr Cymru
Ceredigion / Sir Benfro



Peer support in your community

BETH SYDD WEDI BOD YN DIGWYDD?

Rydym ni wedi cynnal dau ddigwyddiad llwyddiannus ers cyhoeddi ein newyddlen ddiwethaf, sef digwyddiad rhwydweithio yn Saundersfoot a gweithdy yn Borth. Y pynciau dan sylw oedd cynnal grŵp cefnogi cymheiriaid, gwranddo gweithredol ac ymdrin â heriau, ac roedd hi'n braf cael cyfle i gurdd â chymaint o aelodau newydd. Edrychwn ymlaen at dderbyn ceisiadau grant pawb!

DIGWYDDIADAU SYDD AR Y GWEILL!

DIWRNOD O HWYL CARNIFAL CANOLFAN DEULUOL BORTH: Dydd Mawrth 30 Gorffennaf 10am - 2pm
CANOLFAN DEULUOL BORTH, HEOL CLARACH, BORTH

DIGWYDDIAD TAI CEREDIGION "DIWRNOD MAWR ALLAN": Dydd Mercher 31 Gorffennaf 2019 11am - 3pm
CANOLFAN HAMDDEN PLASCRUG, Ffordd Llanbadarn, ABERYSTWYTH

Byddwn yn mynychu Diwrnod o Hwyl Carnifal Canolfan Deuluol Borth, a digwyddiad 'Diwrnod Mawr Allan' Tai Ceredigion ar ddiwedd y mis. Dewch i gael sgwrs i weld sut y gallech chi gael mynediad at hyfforddiant am ddim ac ymgeisio am gyllid grant hyd at £250 (yn ddibynnol ar yr arian sydd ar gael).

Rydym ni hefyd yn bwriadu cynnal dau ddigwyddiad addysgol yn yr ardal leol yn ystod yr hydref: Dydd Mercher 9 Hydref am 11am yng Nghanolfan Y Morlan, Aberystwyth a dydd Mercher 16 Hydref am 11am yng Nghanolfan Picton, Hwlfordd.

Byddwn ni'n hybu pa mor werthfawr yw cefnogaeth gan gymheiriaid ar gyfer gwasanaethau, grwpiau a chomisynwyr lleol, ac yn rhannu canfyddiadau'r rhaglen hyd yma. Byddwn yn estyn gwahoddiad i bob aelod o'r rhwydwaith i gymryd rhan, felly cadwch lygad am fanylion pellach.

CYFLE I ENWEBU AR GYFER GWOBRAU MARSH!

Mae Gwobrau Marsh 2019 yn cydnabod rhagoriaeth mewn cefnogaeth gan gymheiriaid ym maes iechyd meddwl yng Nghymru a Lloegr. Gallwch enwebu eich grŵp cymorth sy'n cael ei arwain gan gymheiriaid am wobwr yn y categorïau canlynol: gwneud pethau dros ein hunain, cefnogaeth arloesol gan gymheiriaid, a chefnogaeth gan gymheiriaid mewn cymunedau ymylol.

Bydd pob prosiect sy'n cael ei ddewis yn derbyn gwobr ariannol. Lawr lwythwch ffurflen enwebu yma: <https://www.mind.org.uk/news-campaigns/marsh-awards/>

Dyddiad cau i dderbyn enwebiadau yw **31 Gorffennaf 2019**.

Newyddlen
GORFFENNAF 2019

01970626225
07958788172

sideby-side@mindaberystwyth.org

Facebook – Side by Side
Cymru at Mind Aberystwyth



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Ochr-yn-Ochr Cymru
Ceredigion / Sir Benfro



Peer support in your community

CANLYNIADAU PANEL GRANTIAU MIS MEHEFIN



Dyfarnodd y panel 7 grant ychwanegol yn ystod y mis diwethaf i grwpiau ar draws Ceredigion. Rhoddwyd cyfanswm o £1950 i grwpiau a ymgeisiodd, gan gynnwys £250 i Grŵp Ukelele Llambled i brynu amp, a £250 i Fenter Silian brynu planhigion a blodau ar gyfer menter gymunedol.

Yn ogystal, llwyddodd Rob, ein swyddog prosiect, ddsbarthu offer gan gynnwys coetiau, sgïtls a gêm Connect 4 anferth ar gyfer parti gardd 'Cacen a Chlonc', ynghyd ag offer codi sbwriel i grŵp Amgylcheddol Newland a'r Cyffiniau, sy'n curdd yn fisol i lanhau eu hardal leol a mwynhau cinio di-blastig a ddarperir gan yr eglwys.

Cynhelir ein cyfarfod panel nesaf ar ddydd Mawrth 29 Awst. Os hoffai eich grŵp chi ymgeisio am gyllid grant hyd at £250, bydd angen i ni dderbyn eich cais llawn erbyn 5pm ddydd Gwener 23 Awst.

Gallwch lawr lwytho'r ffurflen yn y Gymraeg neu'r Saesneg ar wefan Mind Aberystwyth neu ar dudalen Facebook Side by Side Cymru, lle gallwch hefyd ddod o hyd i arweiniad ynglŷn â sut i'w chwblhau. Bydd unrhyw geisiadau sy'n cael eu gwrthod yn cael eu dychwelyd gydag adborth a chanllawiau ynglŷn â sut i wella ar gyfer y dyfodol. Noder ei bod yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno ffurflenni aelodaeth a bod wedi mynychu digwyddiad rhwydweithio. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'ch Swyddog Prosiect - mae manylion ar gael ar y panel ar yr ochr.



Newyddlen
GORFFENNAF 2019

01970626225
07958788172

sideby-side@mindaberystwyth.org

Facebook – Side by Side
Cymru at Mind Aberystwyth



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government